Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Glanadda**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 4SG**

**Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Glanadda wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Chwefror 2013.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Glanadda oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yn y Gymraeg

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae safonau'r Gymraeg wedi codi ers yr arolygiad craidd. Mae asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos cynnydd cadarn. Yn 2013, llwyddodd 78% o ddisgyblion i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, o'i gymharu â 40% yn 2012 a 45% yn 2011. Roedd hyn yn gosod perfformiad yr ysgol yn 2013 ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion y gwahanol ffurfiau ysgrifenedig ac maent yn sillafu'n gynyddol gywir. Maent yn defnyddio paragraffau'n briodol ac yn atalnodi'n gynyddol gywir yn ôl eu hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r disgyblion mwyaf galluog yn ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau yn gyson gywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd clir yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Maent yn siarad am eu hoff lyfrau yn syml. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda chywirdeb addas ond heb liwio'r mynegiant yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn medru mynegi eu barn ar destunau darllen yn hyderus nac yn medru cyfiawnhau eu safbwyntiau yn estynedig.

Cyflwyna'r ysgol ystod briodol o raglenni darllen penodol i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau darllen. Mae'r disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ddarllen ychwanegol yn dangos cynnydd priodol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn mesur y cynnydd hwn yn ddigon manwl.

Ar y cyfan, mae medrau llafar disgyblion yn datblygu'n araf dros y cyfnod allweddol. Maent yn gwrando'n ofalus ar eraill ac yn dangos parch a dealltwriaeth o'r hyn y maent wedi'i glywed. Gallant ofyn cwestiynau perthnasol syml i gael gwybodaeth benodol. Gall llawer o ddisgyblion fynegi barn ac ateb cwestiynau yn syml ac yn gynyddol gywir. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw'r disgyblion yn teimlo'n ddigon hyderus i siarad yn estynedig yn y Gymraeg nac i ddefnyddio'r iaith wrth sgwrsio â'i gilydd.

Mae'r ysgol wedi mireinio'r ffordd o gofnodi cynnydd disgyblion unigol yn rheolaidd er mwyn codi safonau ymhellach. Cedwir portffolios defnyddiol o waith disgyblion i ddangos eu cynnydd ac i ddadansoddi eu cyrhaeddiad.

## Argymhelliad 2: Codi safonau medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi diweddaru cynlluniau gwaith er mwyn sicrhau amrywiaeth dda o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn defnyddio'r dull 'camau bach sy'n arwain at waith estynedig' yn effeithiol a gwelir cynnydd clir yng ngwaith disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth dda o ffurfiau ac i wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ffurfiau hyn yn cynnwys sgriptiau a deialogau, llythyrau ffurfiol, erthyglau papur newydd, portreadau a storïau estynedig. Maent yn aml yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol, gan ddefnyddio eu medrau TGCh yn llwyddiannus i ailddrafftio eu gwaith. Maent yn sillafu'n gynyddol gywir ac yn defnyddio atalnodi'n effeithiol. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad yn briodol. Mae disgyblion mwy galluog a thalentog yn ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig.

Mae sylwadau'r athrawon ar waith ysgrifenedig disgyblion wedi gwella. Maent yn cyfeirio at yr agweddau cadarnhaol ac yn talu sylw priodol i ffyrdd o wella'r gwaith. Yn sgil hyn, maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb i'r sylwadau a gwella eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu targedau personol yn dda ac maent yn ymwybodol o'u camau nesaf yn eu dysgu. Mae hunanasesu ac asesu cyfoedion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol ac mae'r disgyblion hefyd wedi asesu gwaith cyfoedion gyda disgyblion o'r ysgol bartner. Yn sgil y datblygiadau hyn, mae safonau ysgrifennu yn gyson dda ar draws yr ysgol.

## Argymhelliad 3: Cynllunio mwy bwriadus ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd clir wrth gynllunio ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon wedi adolygu a diwygio eu cynllunio i gyflwyno medrau llythrennedd a rhifedd yn briodol. Erbyn hyn, mae'r cynllunio tymor hir a chynllunio tymor byr yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol mewn sefyllfa dda i weithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llawn.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn cynllunio gwersi addas ac yn adeiladu'n briodol ar brofiadau dysgu blaenorol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau gwersi unigol yn ddigon manwl i sicrhau bod holl fedrau'r disgyblion yn datblygu'n llawn ar y lefel briodol.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod addas o weithgareddau diddorol i hyrwyddo medrau llythrennedd disgyblion mewn pynciau fel daearyddiaeth a hanes. Maent yn darparu llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion i ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau ac ar gyfer ystod addas o ddibenion.

Mae cynllunio ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm erbyn hyn yn fwy cadarn.

Defnyddia'r athrawon y fframwaith rhifedd yn briodol i gynllunio ar gyfer gweithgareddau dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae hyn wedi arwain at fwy o gyfleoedd i ddisgyblion wella eu medrau rhifedd, yn enwedig mewn daearyddiaeth a TGCh. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau TGCh er mwyn datblygu a chyflwyno eu gwaith.

Mae'r athrawon hefyd wedi paratoi portffolios rhifedd a llythrennedd defnyddiol i enghreifftio gwaith a safonau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 4: Gwahaniaethu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion pob unigolyn, yn enwedig y disgyblion mwyaf abl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'r system dracio electronig i fesur cynnydd disgyblion. Mae hyn yn cynnwys olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion. Defnyddia'r ysgol y wybodaeth hon yn effeithiol i ddarparu cynhaliaeth ychwanegol i ddiwallu anghenion penodol y disgyblion. Gwna'r athrawon dosbarth ddefnydd priodol o'r cymorthyddion ar gyfer rhoi help ychwanegol i'r disgyblion sydd ei angen. Fodd bynnag, nid yw cofnodion am gynnydd disgyblion unigol mewn darllen yn nodi'n glir yr anawsterau penodol y mae angen sylw pellach arnynt.

Mae gan athrawon bellach ddisgwyliadau uwch o'r hyn y gall disgyblion o bob lefel gallu ei gyflawni, yn enwedig disgyblion o allu uwch. Mae portffolio'r ysgol o waith y disgyblion hyn yn dangos eu bod yn cyflawni gwaith mwy estynnol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cynnydd arwyddocaol mewn safonau yn llyfrau'r disgyblion ac yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r adborth y mae'r disgyblion yn ei dderbyn gan athrawon a gan eu cyfoedion hefyd wedi cyfrannu at godi disgwyliadau o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni.

Er bod cynlluniau tymor byr yn nodi rhai tasgau gwahaniaethol i sicrhau her briodol, nid yw'r agwedd hon wedi datblygu ddigon. O ganlyniad, ar brydiau, nid yw her y tasgau na'r holi mewn gwersi yn sicrhau bod disgyblion o allu uwch, yn enwedig, yn cyflawni gystal ag y dylent.

**Argymhelliad 5: Datblygu gallu'r llywodraethwyr i fonitro a herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Bu cynnydd sylweddol ers yr arolygiad craidd yn y wybodaeth sydd gan y llywodraethwyr am agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr wedi elwa'n fawr o'r trefniadau â'r ysgol bartner arweiniol i ddatblygu eu dulliau o weithredu. Maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant mewnol buddiol yn yr ysgol ar systemau hunanarfarnu, yn cynnwys datblygu eu gallu i graffu ar waith disgyblion.

Mae gan y corff llywodraethol drefn briodol o is-bwyllgorau, sydd yn ei alluogi i graffu yn fwy trylwyr ar yr adroddiadau y mae'n eu derbyn. Mae ymweliadau â

dosbarthiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau craffu ar lyfrau ar y cyd wedi arwain at ddealltwriaeth fwy cadarn o safonau. Mae hyfforddiant ar system olrhain cynnydd yr ysgol hefyd wedi arwain at well dealltwriaeth y llywodraethwyr o gynnydd disgyblion.

O ganlyniad, mae cynnydd clir wedi ei wneud yng ngallu'r llywodraethwyr i godi cwestiynau a holi am wybodaeth bellach yn ôl yr angen. Yn sgil hynny, mae'r corff llywodraethol yn awr yn cyfrannu'n fwy penodol at brosesau cynllunio strategol a phennu blaenoriaethau gwella.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod systemau hunan arfarnu'r ysgol yn arwain at nodi blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn gysylltiedig â chodi safonau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd clir ers yr arolygiad craidd yn datblygu ei threfniadau hunanarfarnu. Yn sgil hyn, mae gan arweinwyr well dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r hyn y mae angen ei wella. Fodd bynnag, nid oes rhaglen gynhwysfawr o arsylwadau gwersi yn weithredol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr hyd yma wedi mynd i'r afael â'r agweddau ar addysgu lle mae angen gwella.

Mae trefn briodol wedi ei sefydlu ar gyfer craffu ar waith disgyblion. Caiff y drefn hon ei gweithredu yn rheolaidd gan y pennaeth ac ar y cyd gan yr athrawesau dosbarth. Mae'r cofnodion yn dilyn y craffu yn gryno ac yn arfarnol, gan nodi'n glir nifer briodol o argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r cydlynwyr yn llunio adroddiadau cryno sy'n darparu trosolwg defnyddiol ar agweddau ysgol gyfan, yn cynnwys rhifedd, darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a gwyddoniaeth. Er y bu ychydig o gyfleoedd buddiol i drafod y wybodaeth yn deillio o'r gwaith monitro, nid yw hyn yn digwydd yn ddigon rheolaidd i sicrhau bod y staff i gyd yn glir ynghylch yr sydd angen ei wella.

Bellach, defnyddia'r ysgol wybodaeth yn deillio o systemau monitro yn gynyddol wrth lunio blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu drafft ar gyfer y tair blynedd nesaf yn cynnwys nifer priodol o flaenoriaethau, ynghyd â chyfres o gamau gweithredu. Mae ynddo ddefnydd o feini prawf meintiol heriol fel modd o fesur cynnydd.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen gryno ac arfarnol. Fodd bynnag, nid yw adroddiad yn rhoi darlun digon cywir o gynnydd y disgyblion yn y medrau nac o ansawdd yr addysgu.

Dylai'r ysgol sicrhau yn awr bod ganddi raglen fanwl a chynhwysfawr ar gyfer y gweithgarwch craffu ar lyfrau a monitro gwersi, sy'n nodi'n glir amlder a ffocws penodol y gwaith monitro dros gyfnod.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.